Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Bwletin y Pwyllgor
Hydref 2024 – y gwanwyn 2025

## Croeso i'n nawfed bwletin y Pwyllgor

Dyma'r nawfed bwletin ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd. Mae'n rhoi trosolwg o waith diweddaraf y Pwyllgor a'r gwaith sydd ganddo ar y gweill, er mwyn eich helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor ac i ymgysylltu ag ef.

Cafodd ei baratoi gan y tîm Clercio sy'n cefnogi'r Pwyllgor. Os oes gennych unrhyw sylwadau, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

### Manylion cyswllt

Gallwch anfon e-bost at Dîm Clercio'r Pwyllgor:
**SeneddEconomi@senedd.cymru**

Ffoniwch ni: 0300 200 6565

Dilynwch ni ar X **@SeneddEconomi**

Gwefan: **https://senedd.cymru/pwyllgorau/pwyllgor-yr-economi-masnach-a-materion-gwledig/**

## Gwaith cyfredol

### Yr Economi Sylfaenol

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i'r Economi Sylfaenol drwy gydol tymor yr hydref, gan glywed tystiolaeth lafar gan amrywiaeth o randdeiliaid ar draws chwe sesiwn panel.

Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad fel rhan o'r ymchwiliad hwn, a gynhaliwyd rhwng 29 Awst a 27 Medi, ac a gafodd 22 o ymatebion.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyflwyno adroddiad yn nhymor y gwanwyn.

### Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad archwiliadol undydd byr i Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) ac Economi Cymru ar 5 Rhagfyr, gan ymchwilio i farn arbenigwyr annibynnol, ar yr effaith ar fusnesau a'r canlyniadau i'r gweithlu.

Fel rhan o hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i dargedu, a hynny rhwng 25 Hydref a 28 Tachwedd, a chafwyd 14 o ymatebion.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyhoeddi adroddiad byr ar ei ganfyddiadau yn nhymor y gwanwyn.

### Dyfodol Dur yng Nghymru

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro diweddariadau ar y mater hwn sy'n symud yn gyflym, yn dilyn cau'r ffwrnais chwyth derfynol yng ngwaith dur Tata ym Mhort Talbot.

Ar 28 Awst, cafodd y Pwyllgor lythyr ymateb gan Brif Weinidog Cymru, a oedd yn rhoi sylw i ddeg argymhelliad y Pwyllgor.

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth lafar ar ddyfodol dur yng Nghymru ar 20 Tachwedd, gyda y Gwir Anrhydeddus Jo Stevens AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Edrychodd yr Aelodau ar bynciau a oedd yn cynnwys y fargen rhwng Tata a Llywodraeth y DU, a chymorth i'r gweithlu yn awr ac yn y dyfodol.

### Yr Economi Werdd

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i'r Economi Werdd drwy gydol tymor y gwanwyn a'r haf, ac mae wrthi'n drafftio ei adroddiad, y mae'r Pwyllgor yn bwriadu ei gyhoeddi y tymor nesaf.

**Gweithgareddau diweddar**

## Ymweliad y Pwyllgor â Llyn Efyrnwy



Bu'r Pwyllgor yn ymweld â Phowys ar 2-3 Hydref i gwrdd â chynrychiolwyr o'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch ac i ymateb i wahoddiad hirsefydlog i ymweld â Gwarchodfa Natur Llyn Efyrnwy yr RSPB.

Roedd hwn yn ymweliad canfod ffeithiau i'r Aelodau, lle buont yn cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol o'r maes lletygarwch a thwristiaeth yng Ngwesty Llyn Efyrnwy, cyn deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru i gyflwyno ardoll ymwelwyr, a chynllun cofrestru a thrwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr.

Bu'r Aelodau hefyd yn ymweld â Gwarchodfa Natur Llyn Efyrnwy yr RSPB i weld ei waith ar adfer mawndir a rheoli tir yn gynaliadwy.


## Banc Datblygu Cymru

Cafodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad ar Fanc Datblygu Cymru ar 28 Awst, ac yna dau ymateb gan y Banc Datblygu, ar 4 Medi a 29 Hydref.

Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 27 Tachwedd.

Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd ei waith craffu blynyddol ar Fanc Datblygu Cymru ar 20 Tachwedd.

## Model Gweithredu Targed y Ffin




Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar y Model Gweithredu Targed y Ffin ar 29 Hydref 2024.

## Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a Chyswllt Ffermio

Cafodd y Pwyllgor ymateb i'w adroddiad ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru ar 10 Medi, a hefyd cafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Gyswllt Ffermio ar 20 Awst.

Cynhaliwyd dadl ar y cyd yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 23 Hydref, pan fu'r Aelodau'n trafod dau adroddiad y Pwyllgor, a hefyd adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidogion

Cynhaliodd y Pwyllgor ei sesiwn graffu gyffredinol gyntaf gyda Rebecca Evans AS, yr Ysgrifennydd Cabinet newydd dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol newydd, mewn sesiwn ar y cyd ar 14 Tachwedd.

Ymddangosodd Huw Irranca Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, gerbron y Pwyllgor hefyd mewn sesiwn graffu gyffredinol ar waith Gweinidogion, a hynny ar 5 Rhagfyr.

### Blaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei raglen waith hyd at y gwanwyn 2025. Mae’r rhaglen waith a gyhoeddwyd yn nodi amcanion y Pwyllgor adeg ei chyhoeddi, ond gall y rhaglen newid ar unrhyw adeg er mwyn ymateb i ddigwyddiadau allanol.

Disgwylir i’r gwaith gynnwys craffu ar gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru, ymchwiliad newydd i lwybrau Prentisiaethau, a gwaith parhaus ar yr adolygiad o weithredu Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU-UE.

Mae’r Pwyllgor wedi cytuno ar nifer o feysydd gwaith eraill, ond mae angen cwmpasu rhagor ar y rhain i’w datblygu i ddod yn ymchwiliadau. Bydd rhagor o wybodaeth am y gwaith cwmpasu hwn yn cael ei gynnwys ar y wefan fel y’i cytunir.

# Cylch gorchwyl

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021, gyda chylch gorchwyl yn cwmpasu (ond heb fod yn gyfyngedig i): datblygu economaidd, adfywio, sgiliau, masnach, ymchwil a datblygu (gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth), a materion gwledig.

# Aelodau'r Pwyllgor



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hefin David AS**

Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**

Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**

Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**

Llafur Cymru.



**Jenny Rathbone AS**

Llafur Cymru